**Adroddiad Holiaduron Arweinwyr Crefyddol Ysgolion Uwchradd Gwynedd – Haf 2010.**

Anfonwyd holiadur allan i bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Derbyniwyd ymatebion gan yr ysgolion canlynol:
Botwnnog; Brynrefail; Eifionydd, Tryfan, Ardudwy, Dyffryn Nantlle; Glan y Môr; Syr Hugh Owen; Y Berwyn; Y Moelwyn.

Cydweithio:

Mynegodd y mwyafrif o'r ysgolion eu bod yn:
- Cynnal gwersi arbennig
- Ymweld â chapel/eglwys
- Gwahodd arweinwyr crefyddol i'r ysgol
- Gwahodd cynrychiolwyr o wahanol elusennau i'r ysgol

Mynegodd lleiafrif o'r ysgolion eu bod yn:
- Cynnal Clwb Cristnogol yn wythnosol
- Trefnu gweithgareddau mewn cydweithrediad â chapel/eglwys leol
- Defnyddio arweinwyr i gynorthwyo gydag astudiaethau crefyddol TGAU

Wrth holi am bwy sydd wedi ymweld â'r ysgol, cyfeiriwyd at:
- Gweinidogion.
- Ficeriaid.
- Arweinwyr ieuenctid.
- Cynrychiolwyr Elusennau megis Cymorth Cristnogol.
- Cynrychiolwyr crefyddau eraill megis Y Gideoniaid, Yr Eglwys Uniongred, Y Sedemiaid.
- Cynrychiolydd Mosg lleol.

I'r dyfodol, mynegodd rhai ysgolion eu bod am ehangu'r cydweithio trwy wahodd rhagor o arweinwyr i'r ysgol - cafwyd un ysgol yn cofnodi eu bwriad i ymweld â Synagog a Chanolfan Fwdhaidd ym Manceinion.
Mae nifer dda o ysgolion yn mynegi eu dymuniad i barhau â'r trefniant effeithiol presennol sydd ganddynt.
Mynegodd dwy ysgol eu bwriad i ail-edrych ar y trefniant, e.e. ystyried mwy o fewnbwn mewn gwersi ABACh.

Unrhyw sylwadau eraill :

- Mae un ysgol wedi cynnal cynhadledd flynyddol yr Eglwys efengylaidd.
- Mae ysgol arall am ail-edrych ar ei darpariaeth ar gyfer addoli-ar-y-cyd.
- Teimlad un ysgol yw bod y cyswllt sydd ganddynt yn hynod werthfawr ac yn dangos ffydd ar waith i'r disgyblion.
- Mae un ysgol yn ffodus iawn o fedru manteisio ar gyfraniadau dau weithiwr ieuenctid yn yr ardal.
- Mynegodd un ysgol eu bwriad i i ehangu'r cyswllt drwy wahodd enwadau eraill o'r dref.

I gloi, mynegodd yr holl ysgolion eu parodrwydd i gydweithio â gwahanol enwadau ac i ddefnyddio cynrychiolwyr er budd datblygiad Addysg Grefyddol. Mae'r ffaith bod 10 allan o 14 ysgol wedi ymateb yn dangos fod y mwyafrif o ysgolion uwchradd Gwynedd yn frwdfrydig, ac yn ymdrechgar wrth ddatblygu a meithrin diddordeb y disgyblion ym maes Addysg Grefyddol.

Ken Robinson, Mehefin 2010.